

Cofnodion cyfarfod 2/4/2020

a gynhaliwyd trwy gyfrwng e-bost oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19

1. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Eifion Roberts yn y mater cynllunio (item 5 isod).
2. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mawrth 5ed, 2020.
3. **Adroddiad y Clerc:**
 - i. Mewn ymateb i'r gŵyn fod y pafin yn anwastad wrth Gaffi'r Cyfnod, dywedodd Cyngor Gwynedd mai problem ydyw i Asiantaeth y Cefnffyrdd. Bydd Cyngor Gwynedd yn ymateb i'r problemau ar y ffordd yn Heol Tegid.
 - ii. Trefnodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod Cyngor Gwynedd yn cau maes parcio'r Ganolfan Hamdden i atal i camper-vans wersylla yno yn ystod yr argyfwng.
 - iii. Mae swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri wedi cau maes parcio Llyn Tegid.
 - iv. Mae Cyngor Gwynedd wedi cau'r Toiledau Cyhoeddus ac ataliwyd y cynllun ardoll 10% o 1/4/20. Gosodwyd arwyddion ar y meysydd chwarae eu bod ar gau.
 - v. Ymatebion i lythyr Cyngor Tref Y Bala yn gofyn am fesurau i atal twristiaid a anfonwyd at:

Dafydd Elis Thomas AS – ni dderbyniwyd ymateb.
Parc Cenedlaethol Eryri- gweithredwyd ar y cais i gau maes parcio Llyn Tegid.
Cyngor Gwynedd – cafwyd ymateb gyda'r troad.
Anfonwyd copi er gwybodaeth at Liz Saville Roberts a rhoddodd ei chefnogaeth i ddymuniadau'r Cyngor gan gysylltu ar ein rhan gyda Heddlu Gogledd Cymru.
 - vi. Ciosg – mae BT wedi derbyn sicrhad fod y Cyngor yn dymuno prynu'r ciosg am £1 er mwyn gosod di-ffib ynddo.
4. Nid oedd Adroddiadau gan gynrychiolwyr.
5. **Materion Cynllunio:** Ymgynghoriad e-bost – newid defnydd Druids' House: Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad, ond mynegwyd pryderon am ddiffyg gofod i barcio.
6. **Materion Cyllid:**
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
 - ii. Cytunwyd i dalu: HMRC (£281.60) a chyflog mis Mawrth.

7. Gohebiaeth: *Derbyniwyd a rhannwyd trwy e-bost*

- i. Arweiniad ar yr Awdit
- ii. Neges gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- iii. Un Llais Cymru : arweiniad ar wirfoddoli
- iv. Un Llais Cymru : uwchraddiad ar reolaeth
- v. BDO: dogfennau'r awdit
- vi. **Llythyron o ddiolch** am gyfraniad oddi wrth
 - i. Canolfan y Plase
 - ii. Llên y Llannau
 - iii. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych (gohiriwyd am flwyddyn)
 - iv. Clwb Badminton Y Bala
 - v. Theatr Bara Caws – bydd y perfformiad ar 28/5/20 yn Theatr Derek Williams yn cael ei ail-drefnu
- vii. Derbyniwyd hefyd lythyr o ddiolch am rodd y Cyngor Tref i Eisteddfod Powys 2021